Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Gweithiwr Glanhau x2**

**Lleoliad:** **Gweler y tabl isod**

**Cyfarwyddiaeth:** **Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol**

**Cyf. / Rhif y Swydd:** **BG16180 a BG03765**

**Cyflog:** **Gradd 3 (£24,404 - £25,183 y flwyddyn, pro rata) – Gradd dros dro sydd gan y swydd hon a bydd yn destun adolygiad gwasanaeth yn 2025**

**Oriau:** **Gweler y tabl isod**

**Contract:** **Parhaol**

## Crynodeb o'r Swydd

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ym Mlaenau Gwent am recriwtio dau weithiwr glanhau yn barhaol i gyflawni dyletswyddau glanhau mewn sefydliadau yn y fwrdeistref.

**Mae dwy swydd ar gael. Nodwch ar eich cais y lleoliad gwaith sydd orau gennych.**

## Hysbyseb Lawn

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol am recriwtio dau weithiwr glanhau i gynnal safonau glanhau mewn unrhyw ardaloedd a nodwyd.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn glanhau unrhyw ardal ddynodedig i safon benodol drwy ddefnyddio cemegau, offer a pheiriannau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cynnal a chadw ei gwpwrdd, offer a pheiriannau trwy eu glanhau a'u storio'n gywir ar ôl eu ddefnyddio. Byddwch hefyd yn gosod archebion pan fydd angen cemegau ac offer newydd.

Dylai'r ymgeiswyr llwyddiannus allu gweithio fel rhan o dîm, bod â'r gallu i ddefnyddio eu menter eu hunain, a bod yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer y swydd.

| Rhif y Swydd | Oriau | Lleoliad |
|---|---|---|
| BG16180 | 15 awr yr wythnos, 41 wythnos y flwyddyn | Lleoliadau amrywiol |
| BG03765 | 15 awr yr wythnos, 41 wythnos y flwyddyn | Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr – Cyfnod Uwchradd |

**Cyraeddiadau Addysgol / Profiad**

Mae gwybodaeth am y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, ac arferion iechyd a diogelwch sylfaenol, ynghyd â phrofiad ohonynt, yn ddymunol.

**Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad cofnodion troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg – gofynnir i chi gwblhau'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflen cais am gyflogaeth**

**Dyddiad Cau:** **17 Ebrill 2025 – 12am, hanner nos**

**Dyddiad y Cyfweliad:** **24 Ebrill 2025**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG